

Eglwys Dewi Sant Church
Caerdydd/ Cardiff

GWYLNOS WEDDI
I ROI TERFYN AR DRAIS WEDI'I
GYFREITHLONI YN ERBYN PLANT



A PRAYER VIGIL
DEDICATED TO ENDING
LEGALISED VIOLENCE AGAINST
CHILDREN

Nos Fawrth 20 Tachwedd
Tuesday 20 November
6.30pm

NODYN ESBONIADOL

Cynhelir yr Wylnos hon ar Ddiwrnod Byd-eang Gweddio a Gweithredu dros Blant (DPAC) a ddethlir bob blwyddyn ar Ddiwrnod Byd-eang y Plant. Thema dair blynedd DPAC (2011-13) yw: “Atal Trais yn Erbyn Plant”. Cynhelir yr Wylnos fel mynegiant o barch at blant a chydgefnogaeth i roi terfyn ar drais wedi'i gyfreithloni yn erbyn plant.

Mae trais yn erbyn plant yn anghydnaws â gwerthoedd craidd tosturi, cyfiawnder a chydaddoldeb ac mae'n tresmasu ar hawl sylfaenol plentyn i barch tuag at urddas dynol a chyfanrwydd corfforol.

Ers Astudiaeth Fyd-eang Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o Drais yn erbyn Plant (2006), mae mudiad cryf sy'n tyfu o arweinwyr a chymunedau crefyddol wedi addo rhoi eu cefnogaeth i wahardd a dileu pob math o gosb gorfforol i blant ac mae pobl o ffydd, ledled y byd, yn chwarae rhan weithredol yn y mudiad i roi terfyn arni.

Yn ystod y degawd diwethaf mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran hyrwyddo hawliau plant ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn gwrthwynebu cosb gorfforol. Yn 2009 nododd Llywodraeth Cymru: “Derbyniwn argymhelliad Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig y dylai amddiffyniad cosb resymol gael ei ddileu er mwyn i blant a phobl ifanc gael mwynhau'r un lefel o amddiffyniad o dan y gyfraith ag oedolion.”

Mae gwahardd pob math o gosb gorfforol i blant a chefnogi rhianta cadarnhaol yn allweddol i greu byd mwy tosturiol a heddychlon. Mae angen gweithredu ar fyrder i roi terfyn ar y trais cyffredin hwn yn erbyn plant.

“Ni ellir cyfiawnhau unrhyw drais yn erbyn plant; gellir atal pob math o drais yn erbyn plant.”

(Paulo Sérgio Pinheiro, yr Arbenigwr Annibynnol dros Astudiaeth Fyd-eang Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o Drais yn erbyn Plant 2006).

**Gwasanaethir yr eglwys gyfan gan ddolen sain. Dylai defnyddwyr droi eu cymorth clyw i'r gosodiad wedi'i farcio â T.*

**Sicrhewch fod ffonau symudol, ffonau cellog a galwyr wedi'u diffodd.*

EXPLANATORY NOTE

This Vigil takes place on the World Day of Prayer and Action for Children (DPAC) which is observed each year on Universal Children's Day. The DPAC three-year theme (2011-13) is: "Stop Violence Against Children". The Vigil is held as an expression of respect for children and of solidarity and support for ending legalised violence against children.

Violence against children is incompatible with the core values of compassion, justice and equality and it breaches a child's fundamental right to respect for human dignity and physical integrity.

Since the United Nations Secretary General's Global Study on Violence against Children (2006), a strong and growing movement of religious leaders and communities have pledged their support for the prohibition and elimination of all corporal punishment of children and people of faith, worldwide, are actively engaged in the movement to end it.

In the last decade Wales has led the way in promoting children's rights and the Welsh Government has clearly stated its opposition to corporal punishment. In 2009 The Welsh Government stated: "We accept the United Nations Committee's recommendation that the reasonable punishment defence ought to be removed so that children and young people can enjoy the same level of protection in law that adults do."

Prohibition of all corporal punishment of children, together with support for positive parenting is a key to a more compassionate and peaceful world. Urgent action is needed to end this common-place violence against children.

"No violence against children is justifiable; all violence against children is preventable."

Paulo Sérgio Pinheiro, the Independent Expert for the United Nations Secretary General's Study on Violence against Children 2006.

**The whole of the church is served by a hearing loop. Users should turn their hearing aid to the setting marked T.*

**Please ensure that mobile phones, cellular phones and pagers, are switched off.*

TREFN Y GWASANAETH

Mae pawb yn sefyll i ganu

YR EMYN

*pan fydd y Clerigwyr
yn symud i'w leoedd yn y Cwâr a'r Gysegrfa*



Can the parents' tender care
cease towards the child they bear?
Yes, and we stand by and see
sadnesses and cruelty.

Child abuse is wounding Christ;
children's armies pierce his side;
children's worries fill God's heart;
where can God's forgiveness start?

When the bells of Christmas ring,
we recall a savage king,
who killed children in his spite;
we today still share that night.

Children can bring into life
wonder, magic, and delight;
yet they need security
for their creativity.

Children trafficked, parents killed,
childhood's promise unfulfilled,
children naked, poor and cold,
children who will not grow old.

God of parents, carers, friends,
teach us how to make amends;
bless our aims, forgive our wrongs,
help our children sing your songs.

Emyn tôn: Buckland

June Boyce-Tillman (b 1943)

Mae pawb yn aros ar eu sefyll. Dywed y Parchedig Dyfrig Lloyd

Y CYFARCHIAD

Croeso i Eglwys Dewi Sant, Caerdydd heno am yr Wylnos Weddi dros blant ac ymwrthod â thrais. Ledled y byd mae plant yn dioddef o ganlyniad i drais: seicolegol, corfforol, gwleidyddol ac economaidd-gymdeithasol. Yn y gwasanaeth hwn rydym yn ymuno mewn gweddi â llawer o bobl ledled y byd sy'n dyheu am roi terfyn ar y fath drais. Mae rhodd plentyndod yn un werthfawr iawn ac rydym yn gobeithio ac yn gweddïo am fyd lle y gellir dileu dioddefaint plant, byd lle y parchwn hawliau ac anghenion pob plentyn.

ORDER OF SERVICE

All stand to sing

THE HYMN

*during which the Clergy
move to places in the Quire and Sanctuary*



Can the parents' tender care
cease towards the child they bear?
Yes, and we stand by and see
sadnesses and cruelty.

Child abuse is wounding Christ;
children's armies pierce his side;
children's worries fill God's heart;
where can God's forgiveness start?

When the bells of Christmas ring,
we recall a savage king,
who killed children in his spite;
we today still share that night.

Children can bring into life
wonder, magic, and delight;
yet they need security
for their creativity.

Children trafficked, parents killed,
childhood's promise unfulfilled,
children naked, poor and cold,
children who will not grow old.

God of parents, carers, friends,
teach us how to make amends;
bless our aims, forgive our wrongs,
help our children sing your songs.

Hymn tune: Buckland

June Boyce-Tillman (b 1943)

All remain standing. The Reverend Dyfrig Lloyd says

THE GREETING

Welcome to Eglwys Dewi Sant, Cardiff this evening for this Prayer Vigil dedicated to children and non-violence. Throughout the world children are suffering as a result of violence: psychological, physical, political and socioeconomic. In this service we join our prayers to those of many people all over the world who long for an end to such violence. The gift of childhood is very precious, and we hope and pray for a world where children's suffering will end, a world where we respect the rights and needs of all children.

Mae pawb yn eistedd

NEGES GAN Y PLANT

NEGES GAN PETER NEWELL

*Cydgysylltydd y Fenter Fyd-eang i Roi Terfyn ar Bob Math o Gosb Gorfforol i Blant
Cynnydd byd-eang o ran gwahardd a dileu cosb dreisgar i Blant*

Mae pawb yn sefyll i ganu

YR EMYN (*A genir yn Gymraeg*)

Un cam bach ar hyd y byd yr af,
ar y daith o hyd dy gwmni gaf;
a thrwy bob yfory ddaw,
gad i minnau afael yn dy law.
*Ac wrth fynd o ddoe i'r 'fory newydd draw,
gad i minnau afael yn dy law.*

Troi o gylch corneli'r byd yr wy',
am y byd cael dysgu mwy a mwy;
pob peth newydd welaf i,
caf ei weled drwy dy lygaid di.

Hŷn wyt, Arglwydd, na'r hen fyd mawr crwn,
iau wyt hefyd na'r diwrnod hwn;
hen a newydd wyt ynghyd,
rhodiad yn dy gwmni di o hyd.

*Emyn tôn: Southcote
Sydney Carter*

*Sydney Carter
Cyf. John Gwilym Jones*

Mae pawb yn eistedd neu'n penlinio

GWEITHRED O GOFIO AM BLANT SYDD WEDI DIODDEF TRAIS

Dywed y Parchedig Dyfrig Lloyd

Rhoddwn ddiolch i'r Hollalluog Dduw am y rhoddion a rydd plant i'n cymdeithas ac am y rhai sy'n meithrin ac yn diogelu'r rhoddion hynny. A chyffeswn yn edifeiriol y ffyrdd y mae ein cymdeithas wedi esgeuluso neu gam-drin ein plant, gan gofio yn arbennig, mewn ennyd o dawelwch, y plant hynny sydd wedi dioddef trais dan law oedolion, gan gynnwys cosb gorfforol.

All sit

A MESSAGE FROM THE CHILDREN

A MESSAGE FROM PETER NEWELL

Coordinator of the Global Initiative to End All Corporal Punishment of Children
Global progress in prohibiting and eliminating violent punishment of Children

All stand to sing

THE HYMN (*Sung in Welsh*)

One more step along the world I go,
one more step along the world I go;
from the old things to the new
keep me travelling along with you:
And it's from the old I travel to the new;
keep me travelling along with you.

Round the corner of the world I turn,
more and more about the world I learn;
all the new things that I see
you'll be looking at along with me:

You are older than the world can be,
you are younger than the life in me;
ever old and ever new,
keep me travelling along with you:

Hymn tune: Southcote
Sydney Carter (b 1915)

Sydney Carter

All sit or kneel

AN ACT OF REMEMBRANCE FOR CHILDREN WHO HAVE
SUFFERED VIOLENCE

The Reverend Dyfrig Lloyd says

Let us give thanks to Almighty God for the gifts which children bring to our society, and for those who nurture and protect those gifts. And let us confess with penitence the ways in which our society has neglected or abused our children, remembering in particular, in a time of silence, those children who have suffered violence at the hands of adults, including corporal punishment.

Cenir cloch yr eglwys yn araf a chedwir tawelwch.

Wedyn mae'r Cantor yn canu:



Arglwydd trugarha.

*Pawb yn canu: **Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.***

Dduw'r Creawdwr, diolchwn i ti am urddas cynhenid plant. Cofiwn gyda thristwch y plant hynny nad ydynt yn cael eu parchu neu sy'n dioddef oherwydd trais.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai sy'n diogelu plant. Cofiwn yn edifeiriol y plant hynny nad ydynt yn cael eu diogelu neu sy'n cael eu gwarthruddo drwy gosb gorfforol.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai sy'n gwranddo ar blant. Cofiwn gyda thristwch y plant hynny nad oes ganddynt unrhyw lais, neu na wrandewir arnynt.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai sy'n helpu plant i ddeall eu gwerth. Cofiwn gyda thristwch y plant hynny nad ydynt yn cael gwybod am eu hawliau.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai a elwir i weithio gyda phlant. Cofiwn yn edifeiriol y plant hynny nad ydynt wedi cael gofal na chymorth o safon.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai sy'n helpu plant sydd wedi dioddef. Cofiwn gyda thristwch y plant hynny nad ydynt wedi cael cymorth digonol na phriodol.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Diolchwn i ti am y rhai sy'n cynllunio dulliau di-drais i ddatrys gwrthdaro. Cofiwn gyda thristwch y plant hynny nad ydynt erioed wedi profi cyfiawnder, tegwch na thosturi.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

The church bell is rung slowly and silence is kept.

Then the Cantor sings:



Lord have mercy.

All repeat: **Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.**

Creator God, we thank you for the inherent dignity of children. We remember with sorrow those children who are not respected and who suffer from violence.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who protect children. We remember with regret those children who are not protected and who are humiliated through corporal punishment.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who listen to children. We remember with sadness those children who have no voice, or who are not heard.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who help children understand their value. We remember with sadness those children who are kept ignorant of their rights.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who are called to work with children. We remember with regret those children who have not received good quality care and support.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who help children who have suffered. We remember with sadness those children who have not been helped adequately or appropriately.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

We thank you for those who model non-violent ways to resolve conflict. We remember with sorrow those children who have never known justice, fairness, and compassion.

Kyrie, kyrie eleison. Kyrie, kyrie eleison.

Mae'r Archesgob yn datgan Y GOLLYNGDOD:

Bydded i Dduw Hollalluog,
sy'n maddau i bawb sy'n wir edifeiriol,
drugarhau wrthyich,
a'ch rhyddhau o bechod,
eich cadarnhau mewn daioni,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Amen.

Yn enw Duw y tad a'r fam sy'n ein meithrin a'n diogelu, rydym yn ymroi i'n plant, i'w helpu i ddysgu'n dda, darganfod ffiniau ac archwilio'n ddiogel, heb ofni cael eu bwrw na'u brifo gan y rhai y maent yn ymddiried ynddynt, fel y gallwn adlewyrchu cariad tyner Duw tuag atynt hwy, tuag atom ni a thuag at yr holl fyd; trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Pawb i eistedd ar gyfer

Mae enw a sefydliad yn darllen

Y DARLLENIAD CYNTAF (*Cymraeg*)

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau. Yn hyn y mae cariad wedi cael ei berffeithio ynom: bod gennym hyder yn Nydd y Farn, oherwydd fel y mae ef, felly yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn. Nid oes ofn mewn cariad, ond y mae cariad perffaith yn bwrw allan ofn; y mae a wnelo ofn â chosb, ac nid yw'r sawl sy'n ofni wedi ei berffeithio mewn cariad. Yr ydym ni'n caru, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Os dywed rhywun, "Rwy'n caru Duw", ac yntau'n casáu ei gydaelod, y mae'n gelwyddog; oherwydd ni all neb nad yw'n caru cydaelod y mae wedi ei weld, garu Duw nad yw wedi ei weld. A dyma'r gorchymyn sydd gennym oddi wrtho ef: bod i'r sawl sy'n caru Duw garu ei gydaelod hefyd.

I Ioan 4:16b - i'r diwedd

Dyma air yr Arglwydd.
Diolch a fo i Dduw.

YR ANTHEM

*Mae'r côr yn canu'r anthem "Ewch allan i'r holl fyd mewn hedd" gan John Rutter.
Mae'r Cyfieithiad Cymraeg gan John Stoddart.*

"Ewch allan i'r holl fyd mewn hedd, a byddwch ddewrion. Daliwch yr hyn sy'n dda. Na thelwch ddrwg am ddrwg fyth i neb un; nerthwch y gwangalon; rhowch hwb i'r gwan; balm i'r trallodus; a pharch i'r pobol. Cerwch Dduw ein Iôr gan lawenhau yng ngallu yr Ysbryd Sanctaidd. A boed bendith yr Hollalluog, y Tad a'i un Mab, gyda'r Ysbryd Glân, arnoch oll, gan aros gyda chwi'n oes oesoedd. Amen."

The Archbishop pronounces THE ABSOLUTION:

Almighty God,
who forgives all who truly repent,
have mercy upon you,
pardon and deliver you from all your sins,
confirm and strengthen you in all goodness,
and keep you in life eternal;
through Jesus Christ our Lord.

Amen.

In the name of God our nurturing and protecting father and mother, we commit ourselves to our children, to helping them to learn well, to discover boundaries, and to explore safely, without fear of being hit or hurt by those they trust, so that we might reflect God's gentle love for them, for us, and for all the world; through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

All sit for

The name and organisation reads

THE FIRST READING (*Welsh*)

God is love, and those who abide in love abide in God, and God abides in them. Love has been perfected among us in this: that we may have boldness on the day of judgement, because as he is, so are we in this world. There is no fear in love, but perfect love casts out fear; for fear has to do with punishment, and whoever fears has not reached perfection in love. We love because he first loved us. Those who say, 'I love God', and hate their brothers or sisters, are liars; for those who do not love a brother or sister whom they have seen, cannot love God whom they have not seen. The commandment we have from him is this: those who love God must love their brothers and sisters also.

I John 4:16b-end

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

THE ANTHEM

The choir sings the anthem "Go forth into the world in peace" by John Rutter. The Welsh translation is by John Stoddart.

"Go forth into the world in peace; be of good courage; hold fast that which is good; render no one evil; strengthen the fainthearted; support the weak; help the afflicted; honour all people; love and serve the Lord, rejoicing in the power of the Holy Spirit. The blessing of God; Father, Son and Holy Spirit be with you forever. Amen."

Mae Lynne Hill, Cyfarwyddwr Polisi o Blant yng Nghymru yn darllen;

YR AIL DDARLLENIAD (*Saesneg*)

Yr amser hwnnw daeth y disgyblion at Iesu a gofyn, "Pwy sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd?" Galwodd Iesu blentyn ato, a'i osod yn eu canol hwy, a dywedodd, "Yn wir, 'rwy'n dweud wrthy ch, heb gymryd eich troi a dod fel plant, nid ewch fyth i mewn i deyrnas nefoedd. Pwy bynnag, felly, fydd yn ei ddarostwng ei hun i fod fel y plentyn hwn, dyma'r un sydd fwyaf yn nheyrnas nefoedd. A phwy bynnag sy'n derbyn un plentyn fel hwn yn fy enw i, y mae'n fy nerbyn i. Yna daethpwyd â phlant ato, iddo roi ei ddwylo arnynt a gweddïo. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond dywedodd Iesu, "Gadewch i'r plant ddod ataf fi a pheidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas nefoedd yn perthyn."

Mathew 18:1-5; 19: 13-14

Dyma air yr Arglwydd.
Diolch a fo i Dduw.

Mae pawb yn sefyll i ganu

YR EMYN (*A genir yn Gymraeg*)

Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw
a'i gyfiawnder ef,
a'r pethau hyn yn ychwaneg roir i chwi:
Halelwia, Halelwia!

*Halelwia, Halelwia,
Halelwia, Halelwia, Halelwia.*

Nid ar fara'n unig bydd byw dyn,
ond ar bob gair
ddaw o enau Duw ei hun:
Halelwia, Halelwia!

Gofynnwch ac fe roddir i chwi,
ceisiwch ac fe gewch;
curwch ac fe agorir i chwi:
Halelwia, Halelwia!

*Emyn tôn: Ceisiwch yn Gyntaf
Karen Lafferty*

*Mathew 6:33; 4:4; 7:7
addas. Enid Morgan*

Lynne Hill, Policy Director from Children in Wales reads,

THE SECOND READING (*English*)

At that time the disciples came to Jesus and asked, ‘Who is the greatest in the kingdom of heaven?’ He called a child, whom he put among them, and said, ‘Truly I tell you, unless you change and become like children, you will never enter the kingdom of heaven. Whoever becomes humble like this child is the greatest in the kingdom of heaven. Whoever welcomes one such child in my name welcomes me. Then little children were being brought to him in order that he might lay his hands on them and pray. The disciples spoke sternly to those who brought them; but Jesus said, ‘Let the little children come to me, and do not stop them; for it is to such as these that the kingdom of heaven belongs.’

Matthew 18: 1–5; 19: 13–14

This is the word of the Lord.

Thanks be to God.

All stand to sing

THE HYMN (*Sung in Welsh*)

Seek ye first the kingdom of God,
and his righteousness,
and all these things shall be added unto you;
allelu, alleluia

*Alleluia, alleluia, alleluia
alleluia, alleluia.*

You shall not live by bread alone,
but by ev’ry word
that proceeds from the mouth of God;
allelu, alleluia

Ask and it shall be given unto you,
seek and ye shall find;
knock, and it shall be opened unto you;
allelu, alleluia

*Seek ye first
Karen Lafferty (b.1948)*

Karen Lafferty
.

Mae pawb yn eistedd i wrando ar

YR ANERCHIAD

gan

Y Prachedicaf Ddr Barry Morgan
Archesgob Cymru ac Esgob Llandaf

Mae pawb yn penlinio neu'n aros ar eu heistedd

Y GWEDDIAU

*pan fydd Cynrychiolwyr o eglwysi a sefydliadau
yn cynnau'r Canhwyllau yn y Dorch Weddio*

Wrth i ni gynnau'r canhwyllau hyn rydym yn cofio plant ym mhob man ac yn ymrwymo i roi terfyn ar drais wedi'i gyfreithloni yn erbyn plant.

Diolchwn i Dduw am rodd plentyndod; am ei ddoethineb penodol ei hun, am y cipolwg y mae'n ei roi ar ryfeddod ein byd ac addewid tragwyddoldeb. Gweddiwn dros gymdeithas sydd mor aml yn dwyn plentyndod, sy'n chwalu ei obeithion a'i freuddwydion ac sy'n defnyddio trais yn erbyn y rhai diniwed. Fel gyda'r plentyn yn y preseb, syllwn ar wyneb Duw, felly ym mhob plentyn, boed i ni adnabod wyneb Crist, gan goleddu'r wyrth.

Dduw Ymgawdoledig: **gwrando ein gweddi.**

Tragwyddol Dduw ein Creawdwr, gweddiwn dros bob plentyn a pherson ifanc sy'n dioddef trais yn eu cartrefi. Gweddiwn y gall pob un ohonom gydweithio i gefnogi'r teuluoedd yn ein cymunedau fel y gall pob plentyn dyfu i fyny mewn amgylchedd o dosturi, caredigrwydd, anogaeth a dim trais.

Tragwyddol Dduw: **gwrando ein gweddi.**

Dduw tosturi, cofiwn bob plentyn yn y byd yr effeithir arno gan drais tlodi a gwrthdaro arfog. Llanw ni â chariad tuag at bob bod dynol fel ein bod yn cydnabod ac yn parchu urddas a hawliau dynol ein gilydd. Rho i ni ras i ddatrys anghydfodau heb ddefnyddio grym.

Dduw tosturi: **gwrando ein gweddi.**

Dduw cariad, gweddiwn y gallwn hyrwyddo diwylliant o barch tuag at urddas pob plentyn a pherson ifanc. Helpa oedolion i addysgu plant drwy eu hesiampl eu hunain a datblygu parch y naill at y llall, am fod parch tuag at ein gilydd yn allweddol i atal trais.

Dduw cariad: **gwrando ein gweddi.**

All sit for

THE ADDRESS

by

The Most Reverend Dr Barry Morgan
Archbishop of Wales and Bishop of Llandaff

All kneel or remain seated for

THE PRAYERS

*during which Representatives from churches and organisations
light the Candles in the Prayer Wreath*

As we light these candles we remember children everywhere and commit ourselves to ending legalised violence against children.

We thank you God for the gift of childhood; for its own particular wisdom, and for its glimpses into the wonder of our world and the promise of eternity. We pray for a society that so often steals childhood, that takes away its hopes and dreams, and does violence to the innocent. As in the manger-child, we gaze upon the face of God, so in each and every child, may we recognise the face of Christ, cherishing the miracle.

Incarnate God: **hear our prayer.**

Eternal God our Creator, we pray for all children and young people who endure violence in their homes. We pray that we may all work together to support the families in our communities so that all children may grow up in an atmosphere of compassion, loving-kindness, encouragement, and non-violence.

Eternal God: **hear our prayer.**

God of compassion, we remember all children in the world affected by the violence of poverty and armed conflict. Fill us with love for all human beings so that we recognise and respect the dignity and human rights of one another. Give us grace to resolve our differences without the use of force.

God of compassion: **hear our prayer.**

God of love, we pray that we may promote a culture of respect for the dignity of all children and young people. Help adults to teach children by their own example and to develop mutual respect, for respect for one another is a key to non-violence.

God of love: **hear our prayer.**

Dduw cyfiawnder, gweddiwn am y dycnwch i gydweithio tuag at ddileu pob math o drais yn erbyn plant, gan gynnwys cosb gorfforol. Helpa ni i ddeall a dehongli ein testunau crefyddol er mwyn hyrwyddo dulliau di-drais a heddwch.

Dduw cyfiawnder: **gwrando ein gweddi.**

Dduw heddwch gweddiwn y gall oedolion greu amgylcheddau lle mae plant, pobl ifanc ac oedolion yn bartneriaid â'i gilydd wrth godi eu llais, datrys gwrthdaro a chreu heddwch.

Dduw heddwch: **gwrando ein gweddi.**

Fel y gorchmynnodd ac y dysgodd ein Gwaredwr Iesu Grist i ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw; deled dy deyrnas; gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol. A maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Pawb i eistedd ar gyfer

GOLCHI TRAED Y PLANT

Yn ystod y ddefod hon mae pawb yn canu:



Lle bo cariad a thynnerwch, yno y mae Duw.

Pawb i sefyll ar gyfer

Y TANGNEFEDD

Dywed y Parchedig Dyfrig Lloyd:

Cariad yw Duw, ac y mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw, a Duw yn aros ynddo yntau.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser

A hefyd gyda thi.

Gall aelodau o'r Gynulleidfa gyfarch ei gilydd ag arwydd o heddwch, drwy ysgwyd llaw fel arfer.

God of justice, we pray for strength of purpose to work in solidarity towards eliminating all forms of violence against children, including corporal punishment. Give us insights to read and interpret our religious texts to promote non-violence and peace. God of justice: **hear our prayer.**

God of peace we pray that adults will create environments where children and young people are partners with adults in speaking out, resolving conflict, and creating peace. God of peace: **hear our prayer.**

As our Saviour Christ has commanded and taught us, we are confident to pray:

Our Father, who art in heaven, hallowed be thy name; thy kingdom come; thy will be done; on earth as it is in heaven. Give us this day our daily bread. And forgive us our trespasses, as we forgive those who trespass against us. And lead us not into temptation; but deliver us from evil. For thine is the kingdom, the power, and the glory, for ever and ever. Amen.

All sit for

THE WASHING OF THE CHILDREN'S FEET

during which all sing:



Where charity and love are, there is God.

Stand for

THE PEACE

The Reverend Dyfrig Lloyd says:

God is love and those who live in love live in God and God lives in them.


The peace of the Lord be always with you;
and also with you.

Members of the Congregation may greet each other with a sign of peace, most commonly a handshake.

Mae pawb yn aros ar eu sefyll i ganu

YR EMYN

pan fydd aelodau'r gynulleidfa yn pasio goleuni'r Gannwyll Basg o amgylch yr eglwys. Estynnwch y fflam i'r rhai o'ch amgylch



We sing a love that sets all people free.
That blows like wind that burns like scorching flame,
Enfolds like earth, springs up like water clear.
Come, living love, live in our hearts today.

We sing a love that seeks another's good,
That longs to serve and not to count the cost,
A love that yielding, finds itself made new.
Come, caring love, live in our hearts today.

We sing a love, unflinching, unafraid
To be itself, despite another's wrath,
A love that stands alone and undismayed
Come strengthening love, live in our hearts today.

Emyn tôn: Woodlands

June Boyce-Tillman (b 1943)

Mae pawb yn aros ar eu traed. Dywed yr Archesgob

Y FENDITH


Ewch allan i'r byd mewn heddwch; byddwch yn ddewr; daliwch at yr hyn sy'n dda;
na wnewch i neb ddrygioni am ddrygioni; atgyfnerthwch y rhai gwangalon;
cefnogwch y rhai gwan; helpwch y trallodion; parchwch bawb; carwch a
gwasanaethwch yr Arglwydd, gan lawenhau yng ngallu'r Ysbryd Lân, a bendith Duw
hollalluog, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn
wastad. **Amen.**

*A wnaiff pawb ddilyn y côr, yr Archesgob a Chynrychiolwyr yr Eglwysi â'ch
canhwyllau wedi'u cynnau. Unwaith y byddwch y tu allan, ceir ennyd o dawelwch.
Mae'r tawelwch yn diweddu gyda'r Gollwng canlynol;*

All remain standing to sing

THE HYMN

during which members of the congregation pass the light of the Paschal Candle around the church. Please pass the flame to those around you.



We sing a love that sets all people free.
That blows like wind that burns like scorching flame,
Enfolds like earth, springs up like water clear.
Come, living love, live in our hearts today.

We sing a love that seeks another's good,
That longs to serve and not to count the cost,
A love that yielding, finds itself made new.
Come, caring love, live in our hearts today.

We sing a love, unflinching, unafraid
To be itself, despite another's wrath,
A love that stands alone and undismayed
Come strengthening love, live in our hearts today.

Hymn Tune: Woodlands

June Boyce-Tillman (b 1943)

All remain standing. The Archbishop says

THE BLESSING

Go forth into the world in peace; be of good courage; hold fast that which is good; render to no-one evil for evil; strengthen the faint-hearted; support the weak; help the afflicted; honour all people; love and serve the Lord, rejoicing in the power of the Holy Spirit; and the blessing of God Almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit, be amongst you and remain with you always. **Amen.**

All follow the choir, Archbishop and Representatives of the Churches with your lighted candles. Once outside, a period of silence is kept. The silence ends with the following dismissal;

Dywed y Parchedig Dyfrig Lloyd:

Yr Arglwydd a fo gyda chwi.

A hefyd gyda thi.

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.

Yn enw Crist. Amen.

The Reverend Dyfrig Lloyd says;

The Lord be with you.

And also with you.

Go in peace to love and serve the Lord.

In the name of Christ. Amen.